

## Llyfr Log Myfyrwyr Sgiliau Arian a Chyllid

### Lefel 2 - Uned 12

-----

#### Uned 12 Defnyddio Arian i Helpu Eraill

##### 12.1 Siopa moesegol

12.1.1 Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Ethical Spending* (FD4) a chwblhewch y tabl isod. (AC 1.1)

Defnyddiwch y tudalennau gwag ar ddiwedd yr uned hon os na fydd gennych ddigon o le.

Ffactor sy'n dylanwadu ar wariant	Enghraifft o sut y gall y ffactor ddylanwadu ar y ffordd y mae unigolyn yn gwario ei arian
1.	
2.	
3.	
4.	

##### 12.1.2 Gweithgaredd 1

Lluniwch daflen i'w dosbarthu yn eich ysgol neu'ch coleg sy'n rhoi gwybodaeth am **bedair** ffordd wahanol o siopa'n foesegol, a'i hanfon at eich tiwtor gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau. (AC 1.2)

##### 12.2 Cyfrannu at elusen

Darllenwch Daflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Giving to Charity* (FD3)

Mae elusennau'n fath arbennig o sefydliad gwirfoddol sydd â nodau elusennol ac sy'n cynnig lles i'r cyhoedd. Cânt eu galw yn 'ddi-elw' gan fod unrhyw arian y maen nhw'n ei godi'n mynd tuag at gostau gweinyddu a'r achos y maen nhw'n ei gefnogi. Gallai dibenion elusennol gynnwys:

- atal neu liniaru tloidi
- helpu addysg
- helpu crefydd
- helpu iechyd neu achub bywydau
- helpu datblygiad cymunedol neu ddinasyddiaeth
- helpu'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth
- helpu chwaraeon amatur
- helpu iawnderau dynol, datrys gwrthdaro a hyrwyddo heddwch a chydardoldeb rhwng gwahanol hiliau neu grefyddau
- gwarchod neu wella'r amgylchedd
- helpu pobl mewn angen (ee plant; yr henoed; pobl sy'n sâl, yn anabl, yn dlawd neu dan anfantais)
- helpu lles anifeiliaid.

Dewiswch elusen sy'n cyd-fynd ag un o'r categorïau yn y rhestr uchod. (AC 2.1 a AC 2.2)

Dyluniwch daflen i'r elusen o'ch dewis, gan gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- amcanion yr elusen
- rhesymau dros gefnogi'r elusen
- y math o waith mae'n ei wneud
- faint o arian sydd wedi ei godi i'r elusen
- **pedair** ffordd wahanol y gallai unigolion gyfrannu at yr elusen (gallech ddefnyddio'r wybodaeth yn Nhaflen Ffeithiau Addysg Nationwide - *Giving to Charity* (FD3) i'ch helpu).

! Cofiwch gynnwys eich taflen gyda'ch Llyfr Log sydd wedi'i gwblhau.

### 12.3 Codi arian i elusen

12.3.1 Byddwch yn cymryd rhan mewn gweithgaredd codi arian gydag eraill. Yn eich grŵp, gwnewch restr o dasgau i'w cwblhau a chytunwch pwy fydd yn gwneud pob tasg. (AC 3.1) Mae'r rhestr wedi ei chychwyn isod.

Noder: Bydd angen i chi gadw cofnod o'ch cyfranogiad unigol yn ymdrechion codi arian y grŵp.

Tasgau	Aelod(au)'r grŵp fydd yn gwneud y dasg	Dyddiad cwblhau
Cysylltu â'r elusen am wybodaeth		
Dylunio poster/taflenni am eich gwaith codi arian		
Casglu arian		
Cymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian ee taith gerdded noddedig		


12.3.2 Pa mor llwyddiannus oedd eich cyfranogiad yn y gweithgaredd codi arian? (AC 3.2)

a) Faint o arian wnaethoch chi ei gasglu'n bersonol?

.....

b) Sut gwnaeth eich gwaith unigol chi gyfrannu at lwyddiant y codi arian?

.....

.....

.....

c) Sut gwnaethoch chi gefnogi aelodau eraill y grŵp?

.....

.....

.....

ch) Sut gallech chi wella y tro nesaf y byddwch chi'n gweithio gyda grŵp i godi arian i elusen?

i).....

ii) .....